***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 714 (Cy. 171)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 3) 2017

*Gwnaed - - - - 27 Mehefin 2017*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 88(3)(d) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 3) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

### Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 14 Gorffennaf 2017

**2.** Y diwrnod penodedig i adran 81 (sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol) o'r Ddeddf ddod i rym yw 14 Gorffennaf 2017.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

27 Mehefin 2017

(**1**) 2016 dccc 3.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r trydydd gorchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn adran 81 (sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol) o'r Ddeddf i rym ar 14 Gorffennaf 2017.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 76 | 1 Ebrill 2017 | O.S. 2017/504 (Cy. 104) |
| Adrannau 77 i 79 i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau | 24 Chwefror 2017 | O.S. 2017/152 (Cy. 44) |
| Adrannau 77 i 79 ac eithrio at ddiben gwneud rheoliadau | 1 Ebrill 2017 | O.S. 2017/504 (Cy. 104) |
| Adran 80 | 1 Ebrill 2017 | O.S. 2017/504 (Cy. 104) |